# Comisiwn
# **Aber Afon Hafren**

Comisiwn annibynnol i archwilio'r potensial ar gyfer ynni cynaliadwy o Aber Afon Hafren

Mawrth 2024



**www.severncommission.co.uk**

Western Gateway
Porth y Gorllewin



This document is available in English /
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg



# Cynnwys


04 Rhagair

06 Y Comisiwn

10 Aber Afon Hafren

12 Pam nawr?

14 Meysydd Ffocws

16 Y Camau Nesaf

18 Cynlluniau Ynni Llanw Aber Hafren



# Rhagair

Mae ein byd yn wynebu heriau lawer. Gyda thymheredd byd-eang yn cynyddu ar raddfa frawychus a gwrthdaro dramor yn cael effaith ar gyflenwad ynni byd-eang, mae angen atebion beiddgar arnom os ydym yn mynd i sicrhau cyflenwad parod o ynni nad oes rhaid talu'n ddrud amdano.

Y DU yw'r economi fawr gyntaf i osod ymrwymiadau cyfreithiol rhwymol i gyrraedd sero net. Mae'n hanfodol ein bod yn archwilio pob llwybr i sicrhau bod gennym gyflenwad cyson o ynni cynaliadwy i bweru'r deyrnas.


Mae wedi bod yn hysbys ers peth amser fod gan Aber Afon Hafren botensial enfawr ar gyfer creu ynni adnewyddadwy glân. Mae'n meddu ar un o'r ystodau llanw uchaf yn y byd, ac amcangyfrifwyd bod y potensial ganddo i greu hyd at 7 y cant o gyfanswm anghenion trydan y DU.

Mae gwerthfawrogiad cyffredinol o'r angen i gyrraedd sero-net, mae modelau ariannol newydd, a thechnolegau newydd ar gael bellach a all liniaru effeithiau amgylcheddol. Mae'r amser yn aeddfed i edrych eto ar sut y gallwn harneisio pŵer Afon Hafren.

Lansiwyd y fenter newydd hon gan Borth y Gorllewin, gyda chefnogaeth arweinwyr lleol, busnesau a phrifysgolion o bob rhan o Dde Cymru a Gorllewin Lloegr. Rydym bob amser wedi bod yn le sy'n arloesi fel cartref llawer o ddyluniadau gorau Brunel a chell danwydd hydrogen gyntaf y byd.

Mae Aber Afon Hafren yn greiddiol i'n daearyddiaeth. Er mwyn canfod ei botensial llawn, mae angen proses annibynnol, deg a thryloyw arnom i adolygu'r dystiolaeth a gwneud argymhellion.

Mae'r comisiwn hwn yn cynnwys grŵp amrywiol o bobl o gefndiroedd gwyddonol, peiriannegol, amgylcheddol, ariannol a rhanddeiliol. Rwy'n gwbl hyderus y bydd yr arbenigedd ganddo a'r annibyniaeth sydd ei hangen i ystyried a yw defnyddio Aber Afon Hafren i greu pŵer cynaliadwy yn gyraeddadwy ac yn ddichonadwy.



Hoffwn ddiolch i Dr Andrew Garrad CBE a gweddill ein Comisiynwyr am gytuno i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, nid yn unig am ei botensial i frwydro yn erbyn newid hinsawdd byd-eang ond hefyd i ddeall y ffordd orau o ddiogelu a harneisio yr adnodd naturiol gwerthfawr hwn.

Bydd eu canfyddiadau yn ein tywys wrth lunio polisïau, meithrin cydweithrediadau, a manteisio ar y cyfleoedd a ddaw i'r amlwg. Gyda'n gilydd, byddwn yn symud tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, gan hyrwyddo defnydd cyfrifol o'n hadnoddau naturiol.



**Y Cynghorydd Huw Thomas,**
Arweinydd Cyngor Caerdydd

## Partneriaeth Porth y Gorllewin

Mae Porth y Gorllewin yn Bartneriaeth Traws-ranbarthol ar gyfer De Cymru a Gorllewin Lloegr. Y cyntaf o'i bath i bontio dwy wlad o fewn y DU, mae'r bartneriaeth yn dwyn ynghyd arweinwyr lleol, busnesau a phrifysgolion i gyrraedd sero net a sbarduno twf economaidd. Yn gartref i weithgynhyrchu o'r radd flaenaf, clystyrau uwch-dechnoleg ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, mae gan yr ardal botensial enfawr i ddod yn ganolfan fyd-eang ar gyfer arloesi digidol, sero net a seiber. Gyda'n gilydd, mae ein partneriaeth yn gweithio i sicrhau y gall ein hardal gyflawni ei photensial a dod yn beiriant cyfle i'r DU.

# Y Comisiwn

## Tasg

Sefydlwyd Comisiwn Aber Afon Hafren i archwilio a oes opsiynau ar gyfer harneisio ynni adnewyddadwy yn gynaliadwy yn Aber Afon Hafren. Bydd y Comisiwn yn gweithredu'n annibynnol ar Fwrdd Partneriaeth Porth y Gorllewin, i roi cyngor diduedd, arbenigol a datblygu argymhelliad terfynol.

Bydd gan y Comisiwn dasg agored i archwilio ystod o opsiynau, gan gynnwys edrych ar ba dechnoleg ynni sy'n bodoli, opsiynau cyllido ac ariannu, sut y gellir diogelu'r amgylchedd, ffactorau cymdeithasol ac economaidd.

Amcanion y Comisiwn yw:

### Potensial

Pennu'r potensial ar gyfer ynni cynaliadwy yn Aber Afon Hafren a'r cyfraniad y gall ei wneud i economi sero net;

### Ystyriaethau

Deall ystyriaethau allweddol Aber Afon Hafren, gan gynnwys pwysigrwydd ei amgylchedd unigryw; a

### Adnabod

Adnabod yr heriau a'r cyfleoedd allweddol o ddatblygu ynni cynaliadwy yn Aber Afon Hafren.

I gyflawni ei amcanion, bydd y Comisiwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, yn comisiynu ymchwil a dadansoddiad; a bydd yn chwilio am fewnbwn arbenigol, i bennu ei argymhelliad terfynol. Wrth gyflawni'r nod hwn, bydd y Comisiwn yn cael ei gefnogi gan ysgrifenyddiaeth a nifer o arbenigwyr.

# Y Comisiynwyr

Mae Comisiwn Aber Afon Hafren yn cynnwys Cadeirydd, a'r Comisiynwyr cychwynnol canlynol. Gellir penodi Comisiynwyr Ychwanegol os oes angen eu harbenigedd.




## Dr Andrew Garrad CBE

**Cadeirydd**

Mae Andrew yn beiriannydd ac yn ddyn busnes ac yn un o arloeswyr y diwydiant ynni gwynt modern. Pleidleisir yn rheolaidd drosto fel un o'r bobl fwyaf dylanwadol yn y diwydiant ynni. Ym 1984, cyd-sefydlodd y cwmni ymgynghori Garrad Hassan (GH) a dyfodd i fod yr ymgynghoriaeth ynni adnewyddadwy annibynnol fwyaf yn y byd, gan gyflogi 1,000 o bobl mewn 29 o wledydd pan ymddeolodd yn 2015.

Cyn hynny bu'n Llywydd Cymdeithas Ynni Gwynt Ewrop, Cadeirydd Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain, Renewables UK bellach, a rhoddwyd CBE iddo yn 2017 am ei wasanaethau i ynni adnewyddadwy. Bu Andrew hefyd yn cadeirio blwyddyn Bryste fel Prifddinas Werdd Ewrop yn 2015.



> "Mae Comisiwn Aber Afon Hafren yn foment ganolog yn yr ymgyrch ar y cyd i geisio atebion ynni cynaliadwy yn yr ardal. Mae llawer i'w ystyried o hyd ac mae tystiolaeth i'w hadolygu er mwyn penderfynu a oes opsiwn ymarferol bellach i harneisio pŵer anhygoel Aber Afon Hafren. Yn dilyn ymdrechion sylweddol yn y gorffennol, ein cenhadaeth yw llywio'r cymhlethdodau, cydbwyso pryderon amgylcheddol, a datgloi cyfleoedd cynaliadwy a fydd yn diffinio dyfodol ynni yn Aber Afon Hafren."
>
> **Dr Andrew Garrad**



## Sue Barr

**Comisiynydd**

Mae gan Sue Barr ddegawdau o brofiad yn y diwydiannau ynni a pheirianneg ar y môr, ac ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Ynni Morol yn y Simply Blue Group. Sue sy'n cadeirio Cyngor Ynni Morol y DU, mae'n Is-gadeirydd y Ganolfan Danddwr Fyd-eang, yn aelod o Fwrdd Ynni Morol Cymru, ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol Marine Power Systems a Fforwm Arfordirol Sir Benfro.

Yn flaenorol, bu Sue yn Aelod o Fwrdd Verdant Power Inc, Scottish Renewables a Renewables UK a gwasanaethodd am 10 mlynedd ar Gyngor Cymdeithas y Diwydiant Ynni Adnewyddadwy Morol, Iwerddon.




## Peter Davies CBE

**Comisiynydd**

Mae cefndir Peter yn cynnwys rolau fel Rheolwr Gyfarwyddwr Busnes yn y Gymuned, Is-gadeirydd Comisiwn Datblygu Cynaliadwy'r DU, Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru, cyd-sylfaenydd Maint Cymru, Cadeirydd Comisiwn Newid Hinsawdd Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Mae ei rolau presennol yn cynnwys cadeirio grŵp Her Annibynnol Dŵr Cymru, Ynni Cymunedol Sir Benfro, Y Sefydliad dros Ddemocratiaeth a Datblygu Cynaliadwy, aelodaeth o Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a cheidwad cymunedol River Simple.



## Dr Madeleine Havard

**Comisiynydd**

Mae Madeleine Havard yn wyddonydd amgylcheddol a weithiodd yn y sector amgylcheddol gwirfoddol a statudol ac fel academydd, gan ddarlithio mewn astudiaethau amgylcheddol gyda diddordebau ymchwil mewn cadwraeth a rheoli morol ac arfordirol. Mae hi wedi cael ei phenodi i nifer o Fyrddau cenedlaethol a Phwyllgorau Cynghori, ac ar hyn o bryd mae'n aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cynghori Parth Cadwraeth Forol Sgomer.



## Chris Mills

**Comisiynydd**

Mae Chris Mills yn wyddonydd o ran hyfforddiant a dechreuodd ei yrfa ym 1978 fel Biolegydd Eog yn y Salmon Research Trust yn Iwerddon. Ym 1989, ymunodd â'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol a oedd newydd ei ffurfio a thros y 23 mlynedd nesaf bu'n gweithio mewn amrywiaeth o rolau pysgodfeydd, rheoli cyffredinol, polisi ac arweinyddiaeth gan ddod yn Gyfarwyddwr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (2006-2013). Yn ystod y cyfnod hwn, Chris oedd yn gyfrifol yn gyffredinol am holl weithgareddau'r Asiantaeth yng Nghymru, gan gynnwys arwain ar gyfer yr Asiantaeth yng Nghymru a Lloegr ar gynnig Morglawdd Hafren.

Bellach wedi ymddeol, mae ar hyn o bryd yn Llywydd ac yn Gadeirydd y Sefydliad Rheoli Pysgodfeydd a Chadeirydd Afonydd Cymru (AC), Cadeirydd Panel Cynghori Amgylcheddol Annibynnol Dŵr Cymru ac yn cynrychioli AC ar nifer o bwyllgorau Cyswllt Amgylcheddol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.




## Dr Nigel Costley

**Comisiynydd**

Nigel Costley oedd Ysgrifennydd Rhanbarthol Cyngres Undebol Masnach De Orllewin Lloegr am 24 mlynedd. Yn gyn-brentis fel cysodwr, ailhyfforddodd Nigel sawl gwaith er mwyn addasu i'r byd digidol. Cafodd ei ethol yn swyddog undeb ar gyfer y GMPU, ac roedd yn rhan o'r newidiadau enfawr yn y diwydiannau argraffu a dylunio.

Mae Nigel yn Aelod o Fwrdd Cyngor Hyfforddiant a Menter Henffordd a Chaerwrangon, un o'r undebwyr llafur cyntaf i gael rôl o'r fath. Arweiniodd ffurfio'r Grŵp Cyflogaeth a Hyfforddiant Graffigol hynod lwyddiannus, a redir gan ac ar gyfer gweithwyr argraffu a graffigol di-waith.



# Aber Afon Hafren

Mae Aber Afon Hafren a'r Môr Hafren ehangach yn pontio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan gwmpasu ystod amrywiol o ecosystemau a chwarae rhan bwysig yn yr economi leol.

Mae'r aber yn gartref i'r amrediad llanw uchaf yn Ewrop, y trydydd uchaf yn y byd. O ystyried ei adnodd llanw sylweddol, mae'r potensial i ddefnyddio ynni'r llanw yn yr aber wedi bod yn destun trafodaeth ers degawdau, gyda rhai amcangyfrifon yn awgrymu y gall ddarparu hyd at 7% o anghenion trydan y DU. Gyda mwy o frys i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, dylid archwilio pob opsiwn ar gyfer ynni carbon isel. Fodd bynnag, mae'r aber hefyd yn ardal o bwysigrwydd rhyngwladol i gynefinoedd bywyd gwyllt ac maent yn hanfodol i economi'r ardal.

Mae miliynau o bobl yn byw ar aber Afon Hafren. Mae'n chwarae rhan ganolog ym mywydau beunyddiol trigolion Bryste, Caerloyw, Casnewydd, Caerdydd, Abertawe, a llawer o leoedd eraill. Mae'r economi ranbarthol, sy'n cwmpasu diwydiannau, cynhyrchu ynni, amaeth, pysgota, twristiaeth, cludiant ac ymdrechion cadwraeth wedi'u clymu'n agos â'r aber. Mae ei lannau yn gartref i ddiwydiannau mawr fel yr atomfa niwclear yn Hinkley Point C, y gorsafoedd pŵer bellach wedi'u datgomisiynu yn Oldbury a Berkeley, canolfan ddiwydiannol amrywiol ar draws De Cymru, gan gynnwys gweithfeydd dur Port Talbot, yn ogystal â myrdd o ddiwydiannau sy'n dod i'r amlwg.



Clevedon

Mae hefyd yn llwybr llongau masnachol mawr gyda phorthladdoedd yn Abertawe, y Barri, Caerdydd, Casnewydd, Sharpness a dau gyfleuster mawr y Bristol Port Company yn Avonmouth a Portbury yn gwasanaethu fel pyrth pwysig ar gyfer masnach a masnach ryngwladol.

Mae Aber Afon Hafren yn chwarae rhan nid yn unig yn yr economi leol a rhanbarthol, ond yn y Deyrnas Unedig gyfan. Mae'r gweithgareddau economaidd yn y rhanbarth hwn wedi'u clymu'n agos â nodweddion daearyddol ac amgylcheddol unigryw'r aber, gan ei gwneud yn ased pwysig i Gymru a Lloegr.





Port Talbot

Mae Aber Afon Hafren o bwysigrwydd amgylcheddol rhyngwladol gan fod ei amrediad llanw unigryw yn creu amgylchedd sy'n gartref i ystod amrywiol o ecosystemau unigryw, gan gynnwys morfeydd heli, fflatiau llaid a fflatiau llanw. Mae pob un o'r rhain yn cefnogi bioamrywiaeth gyfoethog ac yn gweithredu fel cynefin hanfodol ar gyfer adar mudol, pysgod, ac amrywiol rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid. Mae'r amgylchedd deinamig hwn yn cynnig meithrinfeydd hanfodol i bysgod, yn helpu i liniaru erydiad arfordirol, ac yn storio carbon. Mae'n chwarae rhan bwysig yn lliniaru newid hinsawdd.

Mae gan yr aber nifer o ddynodiadau amgylcheddol pwysig sy'n adlewyrchu'r pwysigrwydd ecolegol hwn: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'n hanfodol felly bod unrhyw ddatblygiad yn gosod arwyddocâd cadwraeth natur rhyngwladol, Ewropeaidd a chenedlaethol yr aber yn y canol.

Mae'n bwysig cofio hefyd bod yr aber mewn perygl o newid, gydag ansicrwydd ynghylch sut y gall yr aber, ei afonydd, a'i rywogaethau ymateb i effeithiau hinsawdd sy'n newid. Bydd newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar Aber Hafren a'r ardaloedd cyfagos trwy godi yn lefelau'r môr a fydd yn dwysáu llifogydd ac erydiad, yn tarfu ar ecosystemau sensitif, ac yn bygwth seilwaith, cymunedau ac economi'r rhanbarth. Bydd y newidiadau hyn yn newid cydbwysedd ecosystemau, gan fygwth bioamrywiaeth a bywoliaethau'r rhai sy'n dibynnu arnynt. Mae'r risgiau cysylltiedig i iechyd y cyhoedd, lles cymdeithasol, a'r economi yn tanlinellu'r angen brys am strategaethau lliniaru ac addasu i fynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd.






# Pam nawr?

Mae Aber Afon Hafren yn cynnig potensial enfawr ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel mewn sawl ffordd. Yn benodol, cynigiwyd nifer o brosiectau ynni llanw, ac eto ni weithredwyd yr un ohonynt. Beth sydd wedi newid i gyfiawnhau edrych o'r newydd ar ynni yn Aber Hafren?

- Mwy o frys i gyrraedd sero net i liniaru effeithiau newid hinsawdd, gyda thargedau uchelgeisiol wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru a'r DU.
- Ansefydlogrwydd mewn marchnadoedd ynni byd-eang sy'n deillio o anghydbwysedd cyflenwad a galw wedi ei waethygu gan y rhyfel yn Wcráin.
- Yr angen am sicrwydd hirdymor o ran cost a chyflenwad cynhyrchu ynni carbon isel fforddiadwy.
- Technoleg newydd arloesol sy'n lliniaru effeithiau amgylcheddol.
- Cydnabod manteision cydleoli asedau ynni, fel hydrogen.
- Mae ariannu prosiectau seilwaith mawr bob amser wedi cyflwyno heriau, mae modelau cyllido newydd wedi dangos eu bod yn gymwys i brosiectau mawr dros y degawd diwethaf.
- Yr angen am amrywiaeth o fathau o ynni wrth i ni symud i system ynni sy'n seiliedig fwyfwy ar ynni adnewyddadwy amrywiol, ond rhagweladwy.
- Rhaid i'r DU ail-bweru tyrbinau gwynt, amnewid paneli solar, ac uwchraddio gridiau trydan i gyflawni ei huchelgeisiau sero net erbyn 2050. Mae brys i gael adolygiad o bolisi ynni'r llanw i fanteisio ar wybodaeth bresennol a chynyddu sgiliau perthnasol yn y gweithle a'r gadwyn gyflenwi.



- Mae adolygiadau diweddar fel Adolygiad Hendry ar forlynnoedd llanw yn 2017, a Mission Zero - Adolygiad Annibynnol o Sero Net gan Chris Skidmore AS, wedi tynnu sylw at botensial y DU i arwain y byd mewn ynni llanwol. Mae Senarios Ynni'r Dyfodol y Grid Cenedlaethol yn cynnwys rhwng 1GW ac 8GW o ynni llanw yn eu rhagolwg yn 2023 hyd at 2050.

Mae Partneriaeth Porth y Gorllewin o'r farn bod yr amser yn iawn i archwilio eto a oes opsiynau ymarferol ar gyfer ynni cynaliadwy yn Aber Hafren.




Hinkley Point C

# Meysydd Ffocws

Bydd ymchwil y Comisiwn Annibynnol yn canolbwyntio ar lunio polisi a strategaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i benderfynu a oes opsiynau ynni cynaliadwy ymarferol ar gyfer Aber Hafren.

Ffactor llwyddiant hanfodol wrth gyflawni'r gwaith hwn fydd drwy ddysgu'r gwersi o brosiectau a chynigion blaenorol a llywio polisi Llywodraeth ar y manteision posibl. Bydd y Comisiwn yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr a nodwyd mewn gwaith a gyhoeddwyd yn flaenorol fel sylfaen.




Mae asesiad cychwynnol o'r sylfaen dystiolaeth bresennol wedi nodi'r meysydd canlynol ar gyfer ymchwil bellach a datblygiad polisi:

- Datblygu gwell dealltwriaeth o heriau amgylcheddol ac atebion posibl.
- Cyfrannu at sefydlogrwydd y grid a manteision system ynni eraill (er enghraifft gweithio gyda chyfleusterau cynhyrchu hydrogen gwyrdd).
- Deall, trwy ddadansoddiad system gyfan, gost ymylol ynni'r llanw dros ei oes a manteision posibl i genedlaethau'r dyfodol.
- Datblygu cais enghreifftiol ar gyfer defnyddio dulliau arloesol o gyllido ac ariannu ar gyfer prosiectau ynni llanw mawr, megis ariannu sylfaen asedau a reolir a dewisiadau amgen eraill.
- Sicrhau bod agweddau amgylcheddol unrhyw ddatblygiadau posibl yn cael y sylw a haeddant.
- Deall effeithiau economaidd-gymdeithasol posibl datblygu ynni'r llanw, gan gynnwys manteision, agweddau ac anghenion posibl y gadwyn gyflenwi lywio cymorth polisi gwell.

- Deall rhwystrau annhechnegol wrth ddatblygu ynni'r llanw.
- Sefydlu mecanweithiau cymorth cost isel/effaith uchel i hwyluso datblygu ynni'r llanw.
- Adolygu dewisiadau datgomisiynu "asedau segur" a "diwedd oes".

Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod prosiectau eraill eisoes yn cael eu datblygu yn y maes hwn. Maen nhw'n cynnwys Her Ymchwil Morlyn Llanw Llywodraeth Cymru. Mae Porth y Gorllewin eisoes yn cydweithio â llawer o'r prosiectau hyn.

Yn rhan annatod o lwyddiant y gwaith hwn bydd sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn gallu cymryd rhan yn y broses a darparu eu harbenigedd a'u gwybodaeth. Bydd y Comisiwn yn mynd ati i gynnwys rhanddeiliaid yn ei ystyriaethau, gan ystyried ystod o fewnbynnau, gyda'r bwriad o ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r materion allweddol.



Comisiwn **Aber Afon Hafren**



# Y Camau Nesaf

Bydd Comisiwn Aber Afon Hafren yn dilyn proses gynhwysfawr, gydag ymgysylltu â rhanddeiliaid, galwadau am dystiolaeth, cyngor arbenigol, a chyhoeddi adroddiadau o bryd i'w gilydd ar-lein. Trwy gyfres o gyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd, amcan y Comisiwn yw cwblhau ei ganfyddiadau a gwneud argymhellion i fwrdd Porth y Gorllewin a Llywodraethau Cymru a'r DU erbyn dechrau 2025. Y camau nesaf yw:

2024

### Lansiad:

Yn gynnar yn 2023 bydd y Comisiwn yn cwblhau cwmpas ac amcanion eu gwaith, ac yn datblygu rhaglen waith trwy egluro materion allweddol, heriau a chyfleoedd.

### Casglu Gwybodaeth:

Gall hyn gynnwys astudiaethau gwyddonol, adroddiadau sy'n bod eisoes, adroddiadau llywodraeth, cyflwyniadau rhanddeiliaid, ymgynghoriadau cyhoeddus, a thystiolaethau arbenigol. Y nod yw adeiladu ar y dystiolaeth gref i ddeall beth sydd wedi newid.

### Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:

Gydol y broses, bydd y Comisiwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i gasglu eu safbwyntiau, eu harbenigedd a'u pryderon, gan ddarparu cyfleoedd i gyfrannu eu mewnwelediadau a'u hargymhellion.

### Dadansoddi a Gwerthuso:

Bydd y Comisiwn yn dadansoddi'r wybodaeth a'r data a gasglwyd, gan ystyried safbwyntiau amrywiol y rhanddeiliaid. Bydd y broses hon yn ceisio nodi'r atebion mwyaf ymarferol a chynaliadwy.


### Cwblhau:

Yn gynnar yn 2025 bydd y Comisiwn yn cwblhau ei ganfyddiadau ac yn gwneud argymhellion i Fwrdd Porth y Gorllewin a Llywodraethau Cymru a'r DU.

2025

Comisiwn **Aber Afon Hafren**

# Cynlluniau Ynni Llanw Aber Hafren




1. Swansea Bay Tidal Lagoon (TLP)
2. Minehead to Aberthaw Venturi Fence
3. Minehead to Aberthaw Tidal Reef
4. Minehead to Aberthaw Low Head Tidal Bar
5. Minehead to Aberthaw Venturi Fence
6. Minehead to Aberthaw Tidal Barrage
7. Minehead to Aberthaw Tidal Fence
8. Stepping Stones Tidal Lagoon
9. Bridgwater Bay Lagoon (TLP)
10. West Somerset Tidal Lagoon
11. Hafren Power Severn Barrage
12. Bridgwater Bay Offshore Lagoon
13. Cardiff to Weston Barrage (The Severn Barrage)
14. Cardiff to Weston Low Head Tidal Bar
15. Great Western Power Barrage
16. Cardiff to Weston Tidal Fence
17. Severn Lakes
18. Cardiff to Weston Venturi Fence
19. Bridgwater Bay Lagoon
20. Cardiff to Hinkley Point Barrage (via Weston)
21. Cardiff Tidal Lagoon (TLP)
22. Peterstone Flats Tidal Lagoon
23. Welsh Grounds Lagoon
24. English Grounds Tidal Lagoon
25. Shoots Barrage
26. Newport Tidal Lagoon (TLP)
27. Beachley Barrage

# Comisiwn
# **Aber Afon Hafren**

Western Gateway
Porth y Gorllewin

I ddilyn cynnydd y Comisiwn,
ewch i'n gwefan.

**www.severncommission.co.uk**

severn.commission@western-gateway.co.uk